D, Peniarth 32, f. 82r

Detholiad o Lyfr y Damweiniau

Pob kyflauan o'r a wnel dyn o'e anuod, diwyget o'e vod.

Or llad dynyon ynuyt dynyon ereill, taler galanas drostunt ual dros dynyon ereill kanys eu kenedyl a dyly eu kadw rac gwneuthur drwc onadunt.

Py dyn pwyllawc bynnac a ladho dyn ynuyt, talet y alanas ual galanas dyn pwyllawc.

Ny diwygir sarhaet a gaffer gan ynuyt, ac ny diwygir sarhaet a gaffo ynuyt.

Nyt gwneuthuredic dim oc a wnel dyn medw, na mach a rodho, na pheth arall a wnel.

O deruyd bot dyn kyndeiryawc, a brathu arall ohonaw a'e varw o'r brath hwnnw, nys diwc kenedyl yr ynuyt ef, kanys o annwyt yr heint hwnnw y kolles y llall y eneit.

Ny thelir sarhaet y dyn mut, ac nyt attebir idaw o dim, kanny dyweit ehun y dylyu, onyt arglwyd a drugarhaa wrthaw a rodi idaw a attepo drostaw.

Ny mwynheir ymadrawd dynyon bydeir a deillyon yn dadleu, kanny wyl y deillon, ac na chlyw y bydeir.

Pob anafus arall hagen y bo iach y glusteu a'e lygeit a'e dauawt, kymeredic vyd eu hymadrawd.

Dynyon aghyfyeith ny wyper py dywettont ac ny wypont wynteu py dywetter wrthunt, nyt kymeredic eu hymadrawd onyt arglwyd a drugarhaa wrthunt.

D

Detholiad o Lyfr y Damweiniau

Pob cyflafan a wnêl dyn o'i anfodd, gwnaed iawn amdani o'i fodd.

Os bydd dynion ynfyd yn lladd dynion eraill, taler galanas drostynt fel dros ddynion eraill oherwydd y mae'n iawn i'w cenedl eu cadw rhag gwneuthur drwg.

Pa ddyn llawn bwyll bynnag a laddo ddyn ynfyd, taled ei alanas fel galanas dyn llawn bwyll.

Ni wneir iawn am sarhaed a gaffer gan ynfyd, ac ni wneir iawn am sarhaed a gaffo ynfyd.

Nid gwneuthuredig dim a wnêl dyn meddw, na mach a roddo, nac unrhyw beth arall a wnêl.

Os yw'n digwydd bod dyn cynddeiriog, ac iddo frathu dyn arall ac yntau'n marw o'r brath hwnnw, ni wna cenedl yr ynfyd iawn amdano, oherwydd o natur yr haint hwnnw y collodd y llall ei fywyd.

Ni thelir sarhaed i ddyn mud, ac nid atebir iddo ar gyfer dim, gan na ddywed ef ei hun yr hyn y mae ganddo hawl iddo, oni fydd arglwydd yn trugarhau wrtho ac yn rhoddi iddo un a atebo drosto.

Ni ddefnyddir ymadroddion dynion byddar a deillion mewn dadlau, gan na wêl y deillion, ac ni chlyw y dynion byddar.

Pob gŵr anafus arall, fodd bynnag, y bo ei glustiau a'i lygaid a'i dafod yn iach, bydd eu hymadrodd yn dderbyniadwy.

Dynion anghyfiaith na wyper beth a ddywedont ac ni wypont hwythau beth a ddyweder wrthynt, ni fydd eu hymadrodd yn dderbyniadwy oni fydd arglwydd yn trugarhau wrthynt.

Colan, Peniarth 30, t. 219, t. 180
Detholiad o Lyfr y Damweiniau

O deruyd bot deu dyn en kerdet truy coet, ac esgeynnau y gan y blaenaf gurysgen ar legat er olaf, ac nas rebudyo, talet ydau y legat; ac os rybudyha ny tal ydau dym.

O deruyd bot deu dyn en kerdet, a caffel douot o'r blaenaf onadunt, rannet a'r olaf en deu hanner. Os er olaf a'y keyff, ny dyly e blaenaf dym, can emedewys ac ef.

Pvy bennac a uynno hely pyscaut, a kyuody pysc ohonau a'y emlyt ac y ar y emlyt ef menet em peyryant arall a'i llat, y kyntaf a'y kyuodes a dyly y pysc o keureyth.

O deruyd y dynyon menet y pyscota, ac en amot e reghun e pysc kyntaf a llader e'r neyll a'r dywaethaf e'r llall, ac ny llas namyn un pysc, ac ena y barn keureyth kyhydet a ranhu deu haner.

O deruyd y dynyon hely pyscaut, ac en eu hely deuod dynyon urth eu llat a mynnu rann o'r pyscaut, vynt a dylaant ony deruyd eu dody ar y bacheu neu ar y gudyn, ac o hynny allan ny dylaant dym.

Colan
Detholiad o Lyfr y Damweiniau

Os yw'n digwydd bod dau ddyn yn cerdded trwy goed, a'r blaenaf ohonynt yn caniatáu i gangen chwipio yn ôl ar lygad yr olaf, ac nad yw'n ei rybuddio, taled iddo ei lygad; ac os rhybuddia ef ni thâl ddim iddo.

Os yw'n digwydd bod dau ddyn yn cerdded, a'r blaenaf ohonynt yn cael trysor, rhanned ef yn ddau hanner â'r olaf. Os yr olaf a'i caiff, nid oes hawl gan y blaenaf ar ddim, gan iddo ymadael ag ef.

Pwy bynnag a fynno hela pysgod, ac iddo godi pysgodyn a'i ymlid a thrwy ei ymlid iddo fynd i gored dyn arall a'i ladd , y gŵr cyntaf a'i cododd sydd â hawl ar y pysgodyn o gyfraith.

Os yw'n digwydd i ddynion fynd i bysgota, ac amod rhyngddynt bod y pysgodyn cyntaf a ladder [yn mynd] i'r naill a'r diwethaf [yn mynd] i'r llall, ac ni laddwyd ond un pysgodyn, yna y barn cyfraith gyhydedd a rhannu'n ddau hanner.

Os yw'n digwydd i ddynion hela pysgod, ac yn ystod yr hela bod dynion [eraill] yn dod wrth iddynt ladd y pysgod a mynnu rhan ohonynt, mae ganddynt hawl i'w cael onid yw'r pysgod wedi eu rhoi ar y bachau neu ar y wialen, ac o hynny ymlaen nid oes ganddynt hawl i ddim.